

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (â rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf, Practis**

Deintyddol Paul Edwards

18 Rhagfyr 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau gwahanol yn cael eu paratoi ar gais er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	11
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	14
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17
	Atodiad B.....	18

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad o Bractis Deintyddol Paul Edwards, 23 Gelliwastad Road, Pontypridd o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 18 Rhagfyr 2014.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru¹.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹ Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill, 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir y practis deintyddol a'r bwrdd lechyd am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Paul Edwards yn darparu gwasanaeth ar gyfer cleifion y GIG yn bennaf, ond hefyd ar gyfer rhai cleifion preifat yn ardal Pontypridd o Ronda Cynon Taf. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un rheolwr practis (sydd hefyd yn gweithio yn y dderbynfa), un glanweithydd, un nyrs ac un nyrs o dan hyfforddiant ar gytundeb dros dro.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol, gan gynnwys gwasanaethau glanweithydd.

4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Practis Deintyddol Paul Edwards yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn.

Ar y cyfan, cawsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu ar gyfer cleifion mewn ffordd ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai offerynnau untro yn cael eu hailddefnyddio ar yr un claf mewn apwyntiad diweddarach. Nid yw'r offerynnau hyn wedi'i dylunio i'w hailddefnyddio a gallent fod yn beryglus o ganlyniad. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn gan y practis trwy'n cynllun sicrhau gwelliant ar unwaith a geir yn Atodiad A. Roeddem yn fodlon ar y canlyniad.

Roeddem yn teimlo ar y cyfan fod y practis yn cael ei reoli'n dda. Ar ôl cael sgysiau helaeth â'r staff trwy'r dydd, canfuom fod y staff yn ysgogedig iawn, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn darparu amgylchedd cadarnhaol ac agored yn y practis. Gwnaethom nifer o argymhellion ynglŷn â gwella gweithdrefnau gweinyddol y practis.

Gwelsom fod y practis ar y cyfan yn lân ac yn daclus ac yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn.

Cwblhawyd 15 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Hefyd, siaradwyd â thri chlaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn. Dywedodd pob claf eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis, a'u bod bob amser yn cael croeso cynnes gan y staff. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd.

Roedd y tîm o staff yn sefydledig iawn ac maent wedi bod yn gweithio i'r practis ers blynyddoedd maith. O ganlyniad, roedd y cleifion yn gyfarwydd â'r staff ac yn derbyn dilyniant gofal trwy allu gweld yr un deintydd.

Roedd sampl o sylwadau gan y cleifion yn cynnwys y canlynol:

'Practis rhagorol – yn fodlon iawn!'

'Mae holl staff y practis yn garedig ac yn gyfeillgar iawn. Hyd yn oed pan dorrais fy nghlun a minnau'n cael trafferth gyda baglau, roeddent yn barod iawn eu cymorth ac wedi cynnig ystafell driniaeth fwy cyfleus i mi.'

'Dw i'n fodlon iawn ar fy neintydd. Dw i wedi bod gyda nifer ohonynt ond yn teimlo'n fwy cysurus gyda'r un hwn.'

'Hapus iawn – wedi derbyn gwasanaeth gwych gan y practis hwn erioed. Fyddwn i byth yn mynd i'r unlle arall.'

'...mae staff wastad wedi cynnig gwasanaeth proffesiynol a hyblyg, gan dderbyn yn aml geisiadau brys am help, neu gyngor ar fyr rybudd. Mae triniaeth ddilynol a chynigir bob amser yn ardderchog. Ond yn fwy na hynny, mae'r dull cyfeillgar a naturiol sydd wrth wraidd y practis yn hyrwyddo gwir hyder – agwedd werthfawr ym maes deintyddiaeth, byddwn i'n tybio...'

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau'. Gwelsom fod y rhif cyswllt brys ar

arwydd yn ffenestr y practis, a gwnaethom wirio y rhoddir rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis.

Dyweddodd pob claf eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd staff wrthym eu bod yn trafod opsiynau triniaethau â'r cleifion. Roedd hyn yn cael ei gadw ar gofnodion cleifion. Gwelsom fod ffurflenni cydsynio manwl ar gyfer mathau gwahanol o driniaeth ar gael yn y dderbynfa. Dangoswyd inni enghreifftiau o gynlluniau triniaeth yr oedd cleifion wedi eu derbyn. Dywedodd staff wrthym fod y rhain yn cael eu llofnodi (gan cleifion a'r deintydd) a'u ffeilio.

Dyweddodd staff wrthym fod cleifion sy'n ysmegu yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â rhoi'r gorau iddo, ynghyd â manylion cyswllt gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu'r GIG. Dywedwyd wrthym hefyd fod y deintydd yn cynnal sgrinio canser y geg yn ystod pob apwyntiad rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion y cleifion.

Roedd blwch awgrymiadau yn yr ystafell aros lan lofft, ynghyd â holiaduron adborth cleifion a oedd yn cynnwys lle ar gyfer sylwadau eraill. Gwelsom sampl o'r atebion i'r holiaduron adborth hyn a oedd, ar y cyfan, yn gadarnhaol. Dywedodd staff wrthym fod yr holiaduron adborth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a byddai unrhyw beth arwyddocaol yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd staff. Gwnaethom argymhell y gallai'r practis atgoffa cleifion am yr holiaduron adborth hyn yn rheolaidd, er mwyn i ragor ohonynt gael eu cwblhau.

Gwelsom enghraifft o sut roedd y practis yn ystyried anghenion unigol cleifion trwy arddangos poster ger drws y brif ystafell driniaeth, a oedd yn annog cleifion i ddweud wrth staff am eu hoffterau – fel gwrando ar y radio a sut mae'r gadair wedi'i gosod.

Dyweddodd staff wrthym eu bod weithiau'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg. Roedd gwybodaeth am hyn ar gael yn y dderbynfa er mwyn i staff ei rhoi i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod cleifion nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddynt yn gallu cyfleu eu hanghenion i staff trwy gyfieithydd.

Roedd gwybodaeth am y practis wedi'i harddangos yn ystafell aros y cleifion ac roedd taflenni wedi'u hargraffu ar gael i gleifion. Roedd gan y practis un dudalen we a oedd yn rhoi cyfeiriad, manylion cyswllt a lleoliad y practis. Os bydd gwefan lawn yn cael ei datblygu yn y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth ychwanegol, fel manylion y weithdrefn gwyno, yn ôl canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, cawsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu ar gyfer cleifion mewn ffordd ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai offerynnau untro yn cael eu hailddefnyddio ar yr un claf mewn apwyntiad diweddarach. Nid yw'r offerynnau hyn wedi'u dylunio i'w hailddefnyddio oherwydd gallent fod yn beryglus o ganlyniad. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn gan y practis trwy'r cynllun sicrhau gwelliant ar unwaith a geir yn Atodiad A. Roeddem yn fodlon ar y canlyniad.

Gwnaethom edrych ar sampl o wyth cofnod claf. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn fanwl, yn glir ac yn gryno, ac ynddynt dystiolaeth o gyfathrebu da â chleifion. Roedd gan y practis system addas ar gyfer gwirio hanes meddygol cleifion a chael cydsyniad gwybodus. Gwelsom hefyd fod ansawdd y sganiau pelydr-x o ansawdd da. Roedd hyn yn lleihau ar ddatguddiad cleifion i belydrau-x. Fodd bynnag, gwelsom fod sgan pelydr-x un claf wedi'i ffeilio yn anghywir mewn cofnodion claf arall.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei ffeilio'n gywir.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennaeth berthnasol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a phrofi ar gael ac wedi'i diweddarau. Gwelsom hefyd fod staff wedi derbyn hyfforddiant addas ar ddefnyddio cyfarpar radiograffeg mewn ffordd ddiogel.

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth rhag ofn y byddai claf mewn argyfwng (cwympiad) yn y practis. Roedd staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol. Gwelsom fod system addas ar gyfer ailosod meddyginiaeth y mae ei dyddiad wedi dod i ben. Gwelsom fod glwcagon (cyffur a ddefnyddir ar gyfer cleifion sydd â diabetes) wedi'i gadw ar wahân i weddill y feddyginiaeth frys, yn yr oergell ar y llawr daear. Yn ôl y canllawiau ar y pecyn, gallai'r cyffur hefyd gael ei gadw ar dymheredd ystafell. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis, cyn belled ag y bo modd, gadw'r holl feddyginiaeth frys gyda'i gilydd er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth drin cleifion mewn argyfwng.

Argymhelliad

Dylai'r practis ystyried trefniadau ar gyfer cadw'r holl feddyginiaethau brys gyda'i gilydd er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth drin cleifion.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer, trin, cadw a chael gwared ar wastraff peryglus. Roedd contract cyfredol ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff clinigol. Mae hyn yn golygu y gwaredir ar wastraff yn y practis mewn ffordd amserol a phriodol.

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r ystafelloedd triniaeth o fewn y practis ac roedd y rhain yn cynnwys offer addas ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Gwelsom fod angen glanhau rhai dreir a gwnaethom dynnu sylw'r practis ar y mater hwn.

Roedd gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd cyfleusterau golchi dwylo addas ac roedd eitemau iuntro ar gael er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer sterileiddio offer a gweld eu bod, ar y cyfan, yn ddigonol. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol ynglŷn ag agweddau ar y broses sterileiddio a chadw offerynnau a deunyddiau:

1) Fe'n hysbyswyd hefyd fod canlyniad y gwaith hwnnw am gael ei roi ar gael i'r bwrdd iechyd fel modd o ddangos yr angen am nyrsys cofrestredig ychwanegol.

Argymhelliad

Gweler Atodiad B ar gyfer yr argymhelliad ynglŷn â chynnal a chadw, a glanhau a sterileiddio offer.

2) Roedd staff yn defnyddio'r bwrdd ger y man glân yn yr ystafell ddadheintio, i osod offerynnau sy'n cael eu defnyddio bob dydd. Yn ôl canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05², ni ddylid storio offerynnau ar fyrddau agored. Dylid gorchuddio'r deunyddiau hyn er mwyn osgoi croes-heintio.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod offerynnau glân yn cael eu hamddiffyn rhag haint ac yn cael eu storio mewn ffordd addas.

3) Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau blaenorol, ond cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf dros flwyddyn yn ôl. Yn unol â chanllawiau

²Set o ganllawiau yw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a fwriedir i godi safon gwaith dadheintio (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau deintyddol cynradd

Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylid cynnal archwiliadau rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn.

Argymhelliad

Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn.

4) Gwelsom fod rhai offerynnau untro yn cael eu hailddefnyddio ar yr un claf mewn apwyntiad diweddarach. Nid yw'r offerynnau hyn wedi'i dylunio i'w hailddefnyddio – gallai hyn eu gwneud yn beryglus o ganlyniad. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn gan y practis trwy'r cynllun sicrhau gwelliant ar unwaith a geir yn Atodiad A. Roeddem yn fodlon ar y canlyniad.

Argymhelliad

Gweler Atodiad A ar gyfer argymhelliad sicrhau gwelliant ar unwaith ynglŷn ag offerynnau sydd i'w defnyddio unwaith yn unig, a'r camau gweithredu wedi'u cymryd gan y practis er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Roedd gan y practis gynllun ar waith er mwyn anelu at arfer orau ar gyfer glanhau a sterileiddio. Gwnaethom awgrym y gallai cynllun yn y dyfodol gynnwys ystyriaethau ar gyfer paratoi offerynnau a deunyddiau.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roeddem yn teimlo, ar y cyfan, fod y practis yn cael ei reoli'n dda. Ar ôl cael sgysiau helaeth â'r staff trwy'r dydd, canfuom fod y staff yn ysgogedig iawn, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn darparu amgylchedd cadarnhaol ac agored yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom nifer o argymhellion ynglŷn â gwella gweithdrefnau gweinyddol y practis.

Mae practis yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion y GIG yn bennaf, ond hefyd ar gyfer nifer fach o gleifion preifat. Mae'r practis yn cael ei reoli'n dda gan reolwr practis profiadol. Roeddem yn teimlo bod rheolwr practis a'r prif ddeintydd yn darparu rheolaeth ac arweinyddiaeth dda ar gyfer y tîm o staff. Ar ôl cael sgysiau helaeth â'r staff trwy'r dydd, canfuom fod y staff yn ysgogedig iawn, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn darparu amgylchedd cadarnhaol ac agored ar gyfer y practis. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt gytundebau cyflogaeth, ar wahân i'r glanweithydd a oedd yn hunangyflogedig. Roedd enwau'r staff clinigol, yn ogystal â'r rhifau cofrestru cysylltiedig, wedi'u harddangos yn yr ystafell aros i fyny'r grisiau – ynghyd â thystysgrif a oedd yn cadarnhau bod y deintydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaeth deintyddiaeth breifat.

Gwelsom fod gan y practis ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, a thystysgrifau cynnal a chadw. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis system glir er mwyn gwneud yn siŵr bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu diweddarau'n rheolaidd, a gwneud staff yn ymwybodol ohonynt. Cawsom nad oedd gan rai polisïau ddyddiadau adolygu, ac roedd rhai wedi'u hadolygu sawl blwyddyn yn ôl. Roedd rhai polisïau'n cynnwys dyddiadau diweddar a llofnodion staff i ddangos eu hymwybyddiaeth, ond nid oedd cysondeb yn hyn o beth.

Argymhelliad

Dylai'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, a bod staff yn ymwybodol ohonynt.

Dywedodd staff eu bod wedi cael eu cefnogi trwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddi staff a oedd yn cadarnhau bod gan staff fynediad at ystod o gyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Nid oedd rheolwr y practis wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedodd rheolwr y practis ei fod yn bwriadu gweithio llai o oriau er mewn paratoi ar gyfer ymddeol. Gwnaethom awgrymu y gellid trefnu'r ffeiliau staff yn fwy clir.

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o arfarniadau staff, er bod y cofnodion ar gyfer y rhain yn gryno iawn ac nid oedd yn glir i ba aelod o staff roeddent yn perthyn. Aethpwyd i'r afael a'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad. Nid oedd arfarniadau wedi'u cynnal ar gyfer y prif ddeintydd na'r glanweithydd.

Argymhelliad

Dylid cynnal arfarniadau personol blynyddol ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael y cynnal tuag unwaith bob tri mis. Dywedodd staff eu bod yn trafod ystod o destunau. Rhoddwyd enghreifftiau inni o bethau wedi'u dysgu yn y cyfarfodydd hyn, er enghraifft, pwysigrwydd sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth gyson am brisiau. Roedd y rheolwr practis a'r nyrs yn cynnal cyfarfod gyda'i gilydd bob dydd, ac roeddent yn teimlo bod cyfathrebu da rhwng staff y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis ffurfioli'r cyfathrebu – er enghraifft, codi safon cofnodion cyfarfodydd staff, fel y gellir gweld cofnodion clir o drafodaethau.

Roedd gan y practis raglen sefydlu ar gyfer staff newydd, ond nid ar gyfer staff dros dro na staff asiantaeth. Dywedodd staff wrthym nad oedd y practis wedi cyflogi staff asiantaeth ers blynyddoedd.

Argymhelliad

Dylai'r practis roi trefniadau ar waith i sicrhau addasrwydd pob aelod o staff – gan gynnwys staff dros dro – sy'n gweithio yn y practis.

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff wedi cyflawni hyfforddiant ar amddiffyn plant a bod y practis yn bwriadu trefnu hyfforddiant ar amddiffyn oedolion yn y dyfodol agos.

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o frechiadau hepatitis B a chofnodion imiwnedd yn y ffeiliau staff. Roedd y cyfnod argymelledig ar gyfer brechiad atgyfnerthol wedi dod i ben yn achos y prif ddeintydd. Roedd cofnodion imiwnedd ar gyfer y nyrs yn aneglur ac nid oeddent yn gallu dod o hyn i gofnodion ar gyfer y glanweithydd. Dywedodd y practis wrthym fod y glanweithydd wedi'i datgan yn hollol imiwn i hepatitis B, er nad oedd cadarnhad o'r statws hwn ar gael.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y brechiadau angenrheidiol.

Roedd gan y practis bolisiau gwahanol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat, ac roedd posterï wedi'u harddangos yn ystafell aros y cleifion i fyny'r grisïau. Cawsom fod y broses gwyno'n cydymffurfio â gweithdrefn y GIG a adwaenir fel Gweithio i Wella³ Fodd bynnag, roedd yn rhaid i bolisi cleifion preifat gynnwys manylion AGIC. Gwelsom fod y polisiau cwyno wedi'u harddangos yn yr ystafell aros wedi'u hysgrifennu mewn print bach, a fyddai'n anodd i gleifion ei weld o bellter. Dywedodd pum claf wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i bolisi cwyno'r practis ar gyfer cleifion preifat gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Dylai'r practis ystyried gwneud y polisi cwyno'n haws i gleifion ei gweld.

Dywedodd staff wrthym fod unrhyw gwynion llafar yn cael eu cofnodi'n ddyddiol, mewn llyfr mae pob aelod o staff yn ei ddarllen. Maent hefyd yn cael eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod staff nesaf. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion heb eu datrys ar hyn o bryd, ac mai bach iawn oedd nifer y cwynion a gafwyd. Gwelsom dystiolaeth o gofnodion cwynion a oedd yn dangos bod gan y practis system addas ar gyfer cofnodi cwynion. Dywedodd staff wrthym eu bod wedi gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd trwy gwynion – er enghraifft, cadw cofnodion cleifion a ffurflenni cydsynio manylach.

³Gweithio i Wella yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis ar y cyfan yn lân ac yn daclus ac yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

Lleolir y practis yng nghanol Pontypridd yn agos at y brif ganolfan siopa. Mae gan y practis dair ystafell driniaeth a dau fan aros – wedi'u lleoli ar ddau llawr. Mae derbynfa, ystafell aros cleifion ac un ystafell driniaeth ar y llawr daear. Mae maes parcio ar gyfer staff y tu ôl i'r adeilad. Dywedodd staff y practis wrthym fod hwn ar gael ar gyfer cleifion sydd ag anabledd.

Roedd mynediad at yr adeilad a'r ystafell driniaeth ar y llawr daear yn addas ar gyfer pobl sydd ag anawsterau symudedd. Fodd bynnag, roedd gris bychan o flaen y drws ffrynt ac roedd y ffordd i'r ystafell driniaeth ar y llawr daear yn eithaf cul a allai achosi problemau ar gyfer cadeiriau olwyn mwy o faint.

Roedd llawr y practis wedi'i ddifrodi'n ddiweddar, a oedd yn effeithio ar yr ystafell aros cleifion ar y llawr daear, yn bennaf. Adeg yr arolygiad, nid oedd yr ystafell hon ar gael i gleifion, gan fod y practis yn aros am gadarnhad gan eu cwmni yswiriant cyn y gellid gwneud y gwaith ailaddurno. Er hynny, roedd y practis wedi creu lle addas y tu ôl i'r dderbynfa, i'w ddefnyddio fel ystafell aros dros dro ar gyfer y llawr daear. Roedd digon o le yn y ddau fan aros, ac roedd eu maint yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n ddigonol oddi fewn a'r tu allan, heblaw am y difrod dŵr y soniwyd amdano uchod. Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir, a diffoddwyr tân wedi'u harchwilio'n ddiweddar.

Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio mewn ffordd ddiogel, a bod cofnodion electronig yn cael eu cadw wrth gefn bob dydd ar weinydd mewn adeilad arall. Mae hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a gwybodaeth amdanynt.

Roedd gan y practis doiled staff neillryw a thoiled cleifion neillryw ar y llawr daear. Roeddent i'w gweld yn lân ac ynddynt gyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio. Nid oedd arwyddion ar gyfer toiled y cleifion o'r coridorau nac o'r ystafell aros ar y llawr daear. Roedd hyn yn golygu efallai na fyddai cleifion llai cyfarwydd â'r practis yn gallu dod o hyd i'r toiled yn hawdd.

Roedd hysbysfwrdd mawr i gleifion yn yr ystafell aros i fyny'r grisiau, a oedd yn cynnwys gwybodaeth hyrwyddo iechyd ynglŷn â diet, rhoi'r gorau i ysmegu,

canser y geg, brwsio dannedd a fflosio. Yn ogystal, roedd taflenni gwybodaeth ar gael. Gwelsom fod nifer o bosteri mawr ar yr hysbysfwrdd. Roedd llawer ohonynt yn anodd eu darllen o bellter oherwydd y print bach. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis arddangos llai o bosteri er mwyn i gleifion weld gwybodaeth berthnasol yn haws.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r archwiliad hwn, bydd yn rhaid i'r practis deintyddol gwblhau dau gynllun gwella mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Ceir manylion hyn yn Atodiad A ac Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Paul Edwards yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu deintyddol.

Atodiad A

Arolygiad o Bractis Deintyddol:Cynllun Rhoi Sicrwydd ar Unwaith

Practis: Practis Deintyddol Paul Edwards

Dyddiad yr Arolygiad: 18 Rhagfyr 2014

Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
Dylai'r practis sicrhau bod pob agorell a ffeil endodontig ond yn cael ei ddefnyddio unwaith yn unig, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adran 2.18 a 2.25, gan ei bod yn bosibl bod eu sterileiddio a'u hailddefnyddio'n yn eu gwneud yn beryglus.	Nid yw'r practis bellach yn defnyddio ffeiliau nag agorellau endodontig ar gyfer nifer o ymweliadau gan yr un claf. Bellach mae pob ffeil ag agorell yn cael ei ddefnyddio unwaith yn unig.	Paul Edwards	Yn syth

Atodiad B

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Paul Edwards

Dyddiad yr Arolygiad: 18 Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	-			
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
8	Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei ffeilio'n gywir.	Bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei ffeilio ar gardiau yn cael eu croesyfeirio â rhif adnabod unigryw cyn eu ffeilio.	Gill Penny	Yn syth
8	Dylai'r practis ystyried trefniadau ar gyfer cadw'r holl feddyginiaethau brys gyda'i gilydd er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth drin cleifion.	Bellach, cedwir Glwcagon yn y blwch meddygol gyda meddyginiaethau eraill yn hytrach nag yn yr oergell.	Alex Jones	Yn syth
9	Dylai'r practis sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer cynnal a chofnodi profion rheolaidd, ac ar gyfer cynnal a chadw, glanhau a	Bellach mae gennym lyfrau cofnodion gwahanol ar gyfer pob darn o offer, ac mae'r cofnodydd data yn cael ei ategu ar gyfrifiadur bob wythnos.	Alex Jones	Yn syth

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	sterileiddio offer. Dylai hyn gynnwys gwiriadau dyddiol ar offer, llyfrau cofnodion gwahanol ar gyfer pob darn o offer a sicrhau y cofnodir cynnal a chadw awtoclafau yn effeithiol un unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	Yn ogystal mae gennym amserlen profi ar waith.		
9	Dylai'r practis sicrhau bod offerynnau glân yn cael eu hamddiffyn rhag haint ac yn cael eu storio'n mewn ffordd addas yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,	Bellach cedwir hambyrddau triniaeth mewn cypyrddau o dan glo, a chedwir eitemau sydd i'w defnyddio mewn blychau wedi'u selio.	Alex Jones	Yn syth
10	Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	Bydd y practis yn cynnal archwiliadau croes-heintio bob mis Ebrill.	Deintydd	Ebrill 2015
10	Gweler Atodiad A ar gyfer argymhelliad sicrhau gwelliant ar unwaith ynglŷn ag offerynnau endodontig a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y practis i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw'r practis bellach yn defnyddio ffeiliau nac agorellau endodontig ar gyfer nifer o ymweliadau gan yr un claf. Bellach mae pob ffeil ag agorell yn cael ei ddefnyddio unwaith yn unig.	Paul Edwards	Yn syth
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
11	Dylai'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn	Bydd polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau bob blwyddyn.	Gill Penny	Ebrill 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gyfredol, a bod staff yn ymwybodol ohonynt.			
12	Dylid cynnal arfarniadau personol bob blwyddyn ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis.	Bydd y practis yn parhau i gynnal arfarniadau staff bod blwyddyn, gan gynnwys Lisa Railton (Glanweithydd). Bydd Paul Edwards yn gadael ar 13 Mawrth 2015.	Gill Penny	Ebrill 2015
12	Dylai'r practis roi trefniadau ar waith i sicrhau addasrwydd pob aelod o staff (gan gynnwys staff dros dro) sy'n gweithio yn y practis.	Rydym wedi cyflwyno polisi sefydlu ar gyfer staff dros dro, sydd i'w weithredu ar unwaith.	Gill Penny	Yn syth
12	Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y brechiadau angenrheidiol.	Gan fod pob aelod o staff wedi derbyn y brechiadau angenrheidiol, mae staff yn diweddarar cofnodion y gwasanaeth iechyd galwedigaethol.	Paul Edwards	Ebrill 2015
13	Dylai'r polisi cwyno'r practis ar gyfer cleifion preifat gynnwys manylion cyswllt AGIC yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.	Manylion wedi'u rhoi yn ôl y gofyn..	Gill Penny	Yn syth
13	Dylai'r practis ystyried gwneud y polisi cwyno'n haws i gleifion ei weld.	Mae'r polisi bellach yn haws ei weld.	Gill Penny	Yn syth
Ansawdd yr Amgylchedd				
	-			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch): [Gillian Penny].....

Teitl: [Rheolwr y Practis].....

Llofnod: [Cyflwynwyd yn electronig].....

Dyddiad: [27.01.15].....